BYDDWCH YN WRANDAWR AC YN WNEUTHURWR GAIR DUW

Nodyn i'r siaradwr:
Cynorthwya'r gynulleidfa i weld yr angen i wrando'n astud ar gyfarwyddyd Jehofa, ei ddeall, a'i roi ar waith. Pwysleisia'r angen i dalu sylw i'r ffordd rydyn ni'n gwrando wrth astudio neu fynychu ein cyfarfodydd

"GWRANDWCH YN OFALUS OS DYCH CHI'N AWYDDUS I DDYSGU" (6 mun.)

Anogodd Iesu'r tyrfaoedd sawl gwaith i *wrando* (Mth 11:15; 13:9, 43; 15:10)

Mae llawer heddiw wedi clywed o leiaf rhywfaint o neges y Beibl, ond fel yn nydd Iesu, cymharol fach yw'r nifer sy'n talu sylw

Gall rhai gael eu dal yn ôl gan amryw ragfarnau, athroniaethau dynion, neu bethau eraill sy'n tynnu sylw

Mae gwrando'n ostyngedig i Air Duw yn hanfodol ar gyfer ein hiachawdwriaeth

Mae rhaid inni ddysgu am Jehofa Dduw a Iesu Grist (In 3:16; 17:3; Rhu 10:17)

Mae rhaid inni edrych i Air Duw am arweiniad ym mhob peth (Mth 4:4)

RHAID I WRANDAWYR Y GAIR DDOD YN WEITHREDWYR Y GAIR (7 mun.)

Dydy hi ddim yn ddigon i gymryd gwybodaeth Feiblaidd i mewn yn unig; mae rhaid inni roi ar waith yr hyn a ddysgwn **[Darllen Iago 1:25]**

Gyda help ysbryd Duw, gallwn drechu arferion sydd wedi hen ymwreiddio (1Co 6:9-11; *w10*-E 4/15 9 ¶11)

Mae gwerthfawrogi Jehofa a'i addysg ddwyfol yn ein cymell i newid (Esei 48:17, 18)

[Sonia am brofiad o gyfres y *Tŵr Gwylio* "Mae'r Beibl yn Newid Bywydau"]

Er mwyn inni allu mwynhau bendithion y Deyrnas, ni allwn ni weithredu yn ôl *ein syniadau ni* o beth sy'n plesio Duw (Mth 7:21-23)

Mae llawer sy'n honni eu bod yn dilyn Iesu yn gwneud gweithredoedd da, ond nid y gwaith sydd wedi cael ei benodi gan Dduw (*cf*-E 185-186 ¶10-12)

MAE GWNEUTHURWYR Y GAIR YN RHANNU NEGES Y DEYRNAS AG ERAILL (8 mun.)

Dywedodd Iesu ei fod wedi dod i'r byd i "dystio i beth sy'n wir go iawn" (In 18:37)

Cafodd gomisiwn gan ei Dad i gyhoeddi a dysgu Gair Duw i eraill (Lc 4:18-21)

Aeth drwy holl Galilea a Jwdea yn dysgu a gwneud gwrandawyr gwerthfawrogol yn ddisgyblion (Mth 9:35-38)

Rhoddodd Iesu gomisiwn i'w ddilynwyr i bregethu newyddion da'r Deyrnas a gwneud mwy o ddisgyblion (Mth 10:5-7; 28:19, 20; Lc 10:1, 2, 8, 9)

Dysgodd y Cristnogion cynnar yr un neges am y Deyrnas a wnaeth Iesu (Act 28:30, 31)

Proffwydodd Iesu y byddai Cristnogion yn pregethu hyd eithaf y ddaear (Act 1:8; *it*-2-E 744)

Cymharodd Iesu'r rhai sy'n clywed neges y Deyrnas ac yn ymateb yn ffafriol iddi â 'thir da' (Mth 13:18-23)

Mae rhai fel hyn yn dod â 'chnwd anferth,' hynny yw, maen nhw eu hunain yn dod yn gyhoeddwyr y Deyrnas

Mae rhannu yn y gwaith o bregethu'r newyddion da yn rhan hanfodol o wneud ewyllys Duw (Rhu 10:13-15)

Heddiw, mae Tystion Jehofa yn cyflawni gorchymyn Iesu i gyhoeddi Teyrnas Dduw

Mae'r "cynhaeaf" byd-eang yn fater o frys, yn fwy nawr na fuodd erioed o'r blaen (Dat 14:14-16; *kr*-E 88-89 ¶5-6)

"GWRANDWCH YN OFALUS" (6 mun.)

Er gwaethaf difrifoldeb ein dyddiau ni, mae hi dal yn bosib syrthio i'r fagl o 'glywed y neges a gwneud dim wedyn' (Iag 1:22-24)

Rhybuddiodd yr apostol Paul y Cristnogion Hebreig gan ddweud eu bod yn "araf i ddysgu" (Heb 5:11)

Manteisiwch ar bob peth mae Jehofa'n ei ddarparu drwy ei gyfundrefn ar gyfer ein lles ysbrydol

Mae Iesu wrthi'n arwain y gynulleidfa Gristnogol; mae ef yn defnyddio'r "gwas ffyddlon a chall" i ddarparu bwyd ysbrydol (Mth 24:45-47, *BCND*; *w13*-E 7/15 20 ¶2)

Mae cyfarfodydd a chyhoeddiadau Cristnogol yn ein helpu i astudio Gair Duw fel bod gennyn ni "bopeth sydd ei angen iddyn nhw wneud pob math o bethau da" (2Ti 3:14-17)

Ewch ati i feithrin a chadw rhaglen o addoliad teuluol ac astudiaeth bersonol reolaidd

Wrth inni barhau i ddefnyddio'r darpariaethau hyn yn llawn, dangoswn ein bod yn 'gwrando'n ofalus' (Lc 8:18)

CAIFF Y RHAI SY'N RHOI GAIR DUW AR WAITH EU BENDITHIO (3 mun.)

Disgrifiodd Iesu y ddau ganlyniad sy'n wynebu pawb heddiw (Mth 7:13, 14)

Nawr yw'r adeg i weithredu ar eiriau Iesu **[Darllen Mathew 7:24]**

Mae'r rhai sy'n gwneud hynny'n cael heddwch a gwir hapusrwydd er gwaethaf byw mewn byd cythryblus (*w06*-E 5/15 27-30 ¶4-16)

Mae ufudd-dod i Air Duw yn plesio Jehofa ac yn rhoi'r gobaith o fyw am byth

[Glyna'n agos wrth y deunydd yn yr amlinelliad, a chadwa at yr amser a nodwyd ar gyfer pob rhan. Does dim angen darllen na thrafod pob testun y cyfeirir ato. Gweler y llyfr *Ministry School,* tudalennau 52-55, 166-169]

© 2017 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania